# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 17 Gorffennaf 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Mynd i'r Afael â Hiliaeth yng Nghymru

**C13 Peter Black:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ei gyfraniad at fynd i'r afael â hiliaeth yng Nghymru? (OAQ12664)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn ymrwymedig i fynd i'r afael â hiliaeth. Y bore yma, anerchais gynhadledd a drefnwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ar oblygiadau cyfreithiol, moesegol a gwleidyddol Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, sydd yn mynnu bod awdurdodau lleol yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Hoffwn weld y Cynulliad ar flaen y gad ar y mater hwn ac yn gosod esiampl fel y bydd cyrff cyhoeddus eraill yn dymuno ein dilyn.

### Dod â'r Cynigion yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' a 'Gwellcymru.com' Ynghyd

**C14 Jonathan Morgan:** A yw'r weinyddiaeth Democrataidd Rhyddfrydol-Llafur yn bwriadu dod â'r cynigion yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' a 'Gwellcymru.com' ynghyd mewn un ddogfen sengl? (OAQ12652)

**Prif Weinidog Cymru:** Ydyw. Yr wyf ar ddeall y bydd y Trefnydd yn cyhoeddi datganiad ynghylch hynny ddydd Iau.

### Ehangu'r Undeb Ewropeaidd

**C15 Lynne Neagle:** Pa gyfarfodydd y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch ehangu'r Undeb Ewropeaidd? (OAQ12673)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cwrdd â'r Ysgrifennydd Gwladol yn rheolaidd i drafod amrywiaeth o faterion, gan gynnwys effeithiau ehangu'r UE ar Gymru. Mae fy swyddogion hefyd yn cysylltu'n rheolaidd â'u cydweithwyr yn y Llywodraeth ar faterion ehangu.

### Effeithiolrwydd yr Ymgynghoriad Rhwng y Cynulliad a Llywodraeth y DU

**C16 Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ba mor effeithiol yw'r ymgynghoriad rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth y DU drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru? (OAQ12674)

**Prif Weinidog Cymru:** Yn gyffredinol, mae ein perthynas gyda Llywodraeth y DU yn agos ac yn gynhyrchiol, gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru neu drwy'r Ysgrifennydd Gwladol gyda Gweinidogion eraill.

### Ymchwiliad Cyhoeddus i Argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau

**C17 Peter Rogers:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'r Prif Weinidog ar gydlynu ymchwiliad cyhoeddus llawn ac annibynnol i argyfwng clwy'r traed a'r genau a'i effeithiau ar holl sectorau'r gymdeithas, unwaith y bydd y clwyf wedi'i ddileu? (OAQ12653) [R]

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf wedi cael trafodaethau o'r fath gyda'r Prif Weinidog.

## Monitro Gwaith Gweinidogion y Cabinet dros Doriad yr Haf

**C18 Janet Davies:** Pa weithdrefnau sydd yn eu lle i alluogi'r Cynulliad i fonitro gwaith Gweinidogion y Cabinet dros doriad yr haf? (OAQ12657)

**Prif Weinidog Cymru:** Bydd fy nghydweithwyr yn y Cabinet a finnau'n parhau i wneud penderfyniadau a'u cyhoeddi fel bo'n briodol. Mater i Aelodau'r Cynulliad yw sut y byddant yn ymateb i'r wybodaeth honno.

## Ymrwymiadau Swyddogol dros Doriad yr Haf

**C19 David Lloyd:** Faint o ymrwymiadau swyddogol fydd Prif Weinidog Cymru a'i Weinidogion yn y Cabinet yn eu cyflawni dros doriad yr haf? (OAQ12667)

**Prif Weinidog Cymru:** Bydd aelodau eraill o'r Cabinet a finnau yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau gweinidogol, gan gynnwys ymrwymiadau swyddogol helaeth, drwy doriad yr haf ac eithrio'r cyfnodau pan fydd aelodau unigol y Cabinet ar wyliau teuluol.

## Gwella Proffil Cymru Dramor

**C20 Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch gwella proffil Cymru dramor? (OAQ12679)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae trafodaethau parhaus wedi eu cynnal gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'i swyddogion ar Gymru yn y byd a swyddogaeth Llywodraeth y DU i hyrwyddo Cymru dramor.

Mae codi proffil Cymru dramor yn brif flaenoriaeth gan y Cabinet. Yr ydym yn gweithio gydag ystod o gyrff sector cyhoeddus eraill i ddatblygu agwedd gyfun ar lefel Cymru gyfan i wella ein proffil rhyngwladol.

Bydd is-bwyllgor y Cabinet ar Gymru yn y byd yn datblygu ac yn ysgogi rhaglen lawn o ddigwyddiadau ynghylch hyn.

Byddwn yn parhau i drafod cyfleoedd newydd i hyrwyddo Cymru yn ogystal â datblygu'r rhai sy'n bodoli eisoes.

## Perthynas rhwng Cymru a'r Gwledydd sydd yn Ymgeiswyr ar gyfer Ehangu'r UE

**C21 Richard Edwards:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y berthynas rhwng Cymru a'r gwledydd sydd yn ymgeiswyr ar gyfer ehangu'r Undeb Ewropeaidd? (OAQ12666) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Darpariaeth Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghanol De Cymru

**C22 Owen John Thomas:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch y modd y mae darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghanol De Cymru wedi datblygu o dan y Llywodraeth bartneriaeth? (OAQ12651) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r cynigion sydd yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' wedi arwain at ddarparu gwasanaethau cadarn a sicr ar gyfer pobl Canol De Cymru, a phobl ym mhob cwr o Gymru.

Yr ydym wedi datblygu cynigion radical ar gyfer cyfeiriad y gwasanaeth iechyd yn y dyfodol. Yr ydym hefyd wedi penodi Comisiynydd Plant Cymru ac wedi ennill deddfwriaeth i roi mwy o bwerau iddo. Yr ydym yn targedu gweithredu yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig drwy Roi Cymunedau'n Gyntaf. Yr ydym wedi cyflwyno llaeth ysgol am ddim ar gyfer plant pump i saith oed, archwiliadau deintyddol a phresgripsiynau am ddim i bobl ifanc o dan 25 oed a mynediad am ddim i amgueddfeydd yng Nghymru.

Yr ydym hefyd wedi dechrau'r broses o gynllunio'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol newydd.

**Dogfennau Ymgynghori a Gyflwynir gan y Cynulliad**

**C23 Brian Gibbons:** Pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod gan sefydliadau allanol ddigon o amser i astudio dogfennau ymgynghori a gyflwynir gan y Cynulliad ac ymateb iddynt? (OAQ12661) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Taith MasnachCymru i Dde America**

**C24 Alison Halford:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch ei daith ddiweddar gyda MasnachCymru Rhyngwladol i Dde America? (OAQ12678)

**Prif Weinidog Cymru:** Cyhoeddais ddatganiad ynghylch fy ymweliad yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Mehefin. Pwrpas yr ymweliad oedd cyd-deithio gyda chenhadaeth fasnach MasnachCymru Rhyngwladol i'r Ariannin a Chile, sefydlu cysylltiadau blaenorol gyda'r Wladfa ym Mhatagonia, ac i gyfnewid safbwyntiau gydag aelodau gwleidyddol blaenllaw yn yr Ariannin a Chile, gan gynnwys yr Arlywydd de la Rua ac Arlywydd Lagos.

Pan fydd uwch weinidog yn arwain cenhadaeth fasnach busnesau Cymru, ceir mwy o gyhoeddusrwydd i'r garfan, sy'n golygu bod allforwyr yn elwa yn sgil mwy o hysbysrwydd i'w cynnyrch a'u gwasanaethau. Mae'r adborth a gefais yn cadarnhau hyn. Yr oedd y genhadaeth fasnach yn llwyddiannus, gydag archebion dros £56,000 wedi eu cadarnhau a gwerth £4.2 miliwn o archebion i ddod.

**Cydlynu Polisïau yng Ngogledd Cymru**

**C25 Christine Chapman:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch y cynnydd o safbwynt cydlynu polisïau yng ngogledd Cymru? (OAQ12672)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydym wedi gwneud cynnydd arwyddocaol wrth gydlynu polisïau yng ngogledd Cymru. Er enghraifft, rhoddwyd 54 cynnig o gymorth rhanbarthol dewisol yng ngogledd Cymru yn ystod y 12 mis hyd at 1 Gorffennaf. Rhagwelir y bydd hynny, yn ogystal â buddsoddiad preifat, yn creu 2,360 o swyddi newydd ac wedi diogelu 1,300 o swyddi eraill. Mae'r A55 bellach ar agor fel dolen gyswllt ar gyfer trafnidiaeth a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac mae'r Cynulliad yn ariannu gwasanaeth rheilffordd uniongyrchol i deithwyr rhwng gogledd a de Cymru.

Yn unol â'm swyddogaeth fel Gweinidog â chyfrifioldeb dros gydlynu polisi ar gyfer gogledd Cymru, byddaf yn sicrhau bod y rhanbarth yn cael ei gynrychioli'n iawn a'i fod yn elwa'n llawn o'r cynnydd ardderchog yr ydym yn ei wneud yng Nghymru.

**Monitro'r Cabinet yn Ystod Toriad yr Haf**

**C26 Jocelyn Davies:** Sut y bydd Prif Weinidog Cymru yn monitro perfformiad ei gyd-aelodau yn y Cabinet yn ystod toriad yr haf? (OAQ12658)

**Prif Weinidog Cymru:** Er mai ond un cyfarfod o'r Cabinet sydd wedi ei drefnu yn ystod y toriad, ni fydd prinder cyfleoedd i gwrdd â Gweinidogion y Cabinet, yn unigol neu'n grwpiau.

**Datblygu'r Berthynas Rhwng Cymru ac Iwerddon**

**C27 John Griffiths:** Pa strategaeth fydd yn cael ei dilyn er mwyn datblygu'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon ymhellach? (OAQ12677)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon yn wych.

Bu Bertie Ahern TD, y Taoiseach, yn annerch y Cynulliad ar Ddydd Gŵyl Ddewi eleni. Bu hefyd yn annerch y fforwm ar Gymru, Ewrop a'r Byd yng Ngwesty'r Celtic Manor ac yr oedd ei bresenoldeb yn gyfraniad mawr i lwyddiant sylweddol y digwyddiad.

Mae agor swyddfa Is-gennad Iwerddon yng Nghaerdydd wedi bod o gymorth i atgyfnerthu'r cysylltiadau hanesyddol a diwylliannol clos rhwng Cymru ac Iwerddon, ac wedi cydnabod safle newydd Cymru o fewn y DU yn dilyn datganoli.

Hefyd ymwelodd Llysgennad Iwerddon ym Mhrydain, Syr Ivor Roberts, â Chymru ym Mawrth gan bwysleisio'r cyfle i fasnachu a chydweithio rhwng y ddwy genedl. O ganlyniad, bwriedir cynnal cenhadaeth fasnach, buddsoddiad a thwristiaeth ar ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Yn ychwanegol at hyn, mae ystod o gysylltiadau swyddogol wedi eu gwneud, a bu cenhadaeth fasnach MasnachCymru Rhyngwladol, yn cynnwys 27 o gwmnïau o Gymru, ar ymweliad i Iwerddon yn Nhachwedd y llynedd. Bydd MasnachCymru Rhyngwladol hefyd yn cymryd rhan mewn dau ddigwyddiad sy'n ymwneud â'r sector yn ddiweddarach y flwyddyn hon.

Byddwn yn parhau i drafod yr holl bosibiliadau i ddatblygu ymhellach y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon.